



# Sefydlu’r dull sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau

Dewch o hyd i wybodaeth ac adnoddau ar sut mae angen i ddiwylliant, systemau a phrosesau newid i gefnogi ymgorffori dull canlyniadau ar draws ein sefydliadau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Ionawr 2020

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/canlyniadau-personol/sefydlur-dull-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau am y fersiwn diweddaraf.

Dewch o hyd i wybodaeth ac adnoddau ar sut mae angen i ddiwylliant, systemau a phrosesau newid i gefnogi ymgorffori dull canlyniadau ar draws ein sefydliadau.

## Cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau: ystyried risg

Gall fod yn anodd cael cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau, gan fod gweithwyr proffesiynol yn aml yn gweld risgiau fel pethau i'w hosgoi a’u rheoli, yn hytrach na’u bod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau a rennir.

Mewn gwirionedd, mae cymryd risgiau yn rhan bwysig o fywyd bob dydd sy’n helpu pobl i wneud yr hyn sy’n bwysig iddynt.

Comisiynwyd darn o waith i gyd gynhyrchu egwyddorion ymarfer ar gyfer cydbwyso risg, hawliau a chyfrifoldebau mewn gwasanaethau i oedolion. Mae’r egwyddorion yn egluro sut y gall ymarferwyr gofal cymdeithasol weithio gyda’i gilydd i gymryd agwedd bositif tuag at wneud penderfyniadau am risg.

> Egwyddorion ymarfer Cydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer oedolion: dull cadarnhaol o ymdrin â risgiau
>
> PDF 323KB

Hoffwn wybod sut gallwn helpu chi i ddefnyddio’r egwyddorion hyn yn eich gwaith, cymerwch amser i ateb ychydig o gwestiynau :

Mae’r gwaith yn adeiladu ar astudiaeth a gynhyrchwyd i ddeall sut mae gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi pobl eraill yn gallu symud tuag at wneud penderfyniadau. Darganfyddodd yr astudiaeth y dylai’r broses o wneud

penderfyniadau fod yn:

- yn gytbwys – gan gydnabod y potensial i roi budd yn ogystal â'r risg o niwed, a gan ystyried effaith emosiynol, seicolegol, gymdeithasol a chorfforol bosibl pob dewis
- yn amddiffynadwy – yn ddilys, yn gyfiawn ac wedi'i chofnodi'n gymesur, ac nid yn amddiffynnol nac wedi'i hysgogi gan yr angen i warchod ein hunain a'n hasiantaethau
- yn gydweithredol – gyda'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn isod.

> Risg cadarnhaol a phenderfynu ar y cyd - Gan Imogen Blood a Shani Wardle
>
> PDF 378KB

## Ceir egwyddorion cyffredin ar draws modelau tebyg

Mae gwasanaethau plant ar hyn o bryd yn defnyddio nifer o fodelau y gellid eu disgrifio fel modelau sy'n 'canolbwyntio ar ganlyniadau', 'seiliedig ar gryfderau' neu 'berthynol'. Mae'r holl fodelau hyn yn seiliedig ar egwyddorion tebyg:

- perthynas gydweithredol rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn/teulu, wedi'i datblygu drwy wrando'n astud ac yn fyfyriol, ac yn seiliedig ar empathi a gan adnabod y gwahaniaethau mewn grym
- cred bod newid yn bosibl a bod agweddau gwahanol yn naturiol
- yn annog cryfderau ac yn adeiladu ar eithriadau, ochr yn ochr ag asesu risgiau

- sgyrsiau gonest ac agored â theuluoedd ac eraill am risgiau
- gweithio ag unigolion a theuluoedd i ganfod atebion a gosod nodau
- canfod a defnyddio rhwydweithiau ac adnoddau ehangach
- gweithredu ar draws y system gyfan â theuluoedd, cymunedau a gwasanaethau.

## Beth sy’n cynorthwyo ymarferwyr i weithio fel hyn?

Mae goruchwyliaeth effeithiol a rheolaidd yn holl bwysig a dylai:

- ‘gynnal’ tensiwn ac ansicrwydd drwy fod yn sylfaen diogel i ymarferwyr fel y gallant feddwl ac ystyried eu cysylltiad â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, a phrosesu eu hymatebion emosiynol eu hunain
- craffu’n gadarnhaol ar farn ei gilydd
- hybu diwylliant sy’n barod i ddysgu lle caiff ymarfer creadigol â theuluoedd ei annog a lle caiff risg a dulliau arloesol arfaethedig eu trafod yn agored
- trafod y gwerthoedd sy’n arwain yr ymarfer
- chwilio am yr eithriadau, y cryfderau, y canlyniadau dymunol ac atebion posibl â theuluoedd
- hybu cydgyfrifoldeb dros risg.

Ffactorau eraill a oedd yn gefnogol i ymarferwyr weithio fel hyn:

- datblygu sgiliau a hyfforddiant, ynghyd â chyfleoedd i gysgodi a chydweithio
- sicrhau’r cyfleoedd gorau i ymyrryd yn gynnar
- cynnwys teuluoedd i gynllunio ar gyfer diogelwch er mwyn datblygu eu gallu i atal ac ymateb yn effeithiol i argyfwng i'r dyfodol
- cydnabod yr effaith y gall tlodi ei chael ar deuluoedd, gydag ymarferwyr yn bod yn sensitif i anghydraddoldebau grym a strwythur.

Gwyliwch y fideo hwn i weld sut mae’r gweithiwr cymdeithasol Dawn yn gweithio â rhiant i ddatblygu cynllun diogelwch:

Gweld trawsgrifiad

00:00

Felly, fel rydyn ni wedi dweud yn gynharach, gyda'r cynllun diogelwch yma,

00:06

rydyn ni'n mynd i eistedd lawr gyda'n gilydd fel rydyn yn gwneud rŵan a 'dyn ni'n mynd i edrych ar

00:10

beth sy'n digwydd pan dydy pethe ddim yn mynd yn dda iawn adref, a beth sy'n digwydd pan mae pethe yn mynd yn dda

00:16

a sut ydyn ni'n mynd i gael mwy o adegau da a llai o gyfnodau anodd.

00:21

Iawn? Felly yn gyntaf, bydden ni'n meddwl yn benodol am eich perthynas chi a Llyr,

00:27

a hefyd y ffraeo sy'n digwydd rhyngoch chi a Peter. Beth ydyn ni'n gallu gwneud

00:34

i leihau'r risg ohonoch chi'n ffraeo? A hefyd meddwl am os oes yna deulu neu ffrindiau sy'n gallu helpu

00:42

chi ar yr adegau yma. Ydy hynny'n swnio'n iawn?

00:47

Ydy.

00:50

Felly oeddech chi'n sôn bod y ffraeo rhyngoch chi a Peter yn eich poeni chi a hefyd

00:58

eich bod chi'n poeni am y ffaith fod pres yn brin. Rydyn ni hefyd yn poeni am y ffaith nad oeddech

01:03

chi'n gwybod ble oedd Megan, na Llyr, pan oedd y ffrae wedi digwydd.

01:07

Felly buaswn i yn hoffi gwneud rhyw fath o gynllun, fel os oes rhywbeth yn digwydd eto,

01:12

bod y plant yn ddiogel a bod ni'n gwybod lle mae nhw'n mynd i fynd.

01:16

Iawn? O a cofiwch hefyd,

01:20

mae hwn yn gynllun sy'n hyblyg, rydyn ni yn gallu newid o, felly os ydych chi'n teimlo

01:23

fel bod pethe ddim yn gweithio, gewn ni ail-edrych arno fo, dof i nôl

01:27

gewn ni edrych ar beth sy'n gweithio a thrio pethau gwahanol.

01:32

Felly gewn ni feddwl am yr adegau pan ydych chi a Peter yn ffraeo, beth sy'n digwydd?

01:42

Ni'n gwaeddi ar ein gilydd. Mae'r ddau ohonom ni'n gweud pethau, jest fel unrhyw ffrae.

01:50

Ar adegau pan ydych chi a Peter yn ffraeo, beth sydd wedi gweithio pryd hynny?

01:55

Beth sydd wedi gweithio o'r blaen?

01:59

Wel mae fe'n mynd mas ac wedyn, fi'n taweli'n hun wedyn.

02:02

Felly mae amser ar wahân, yn helpu chi'n dau daweli?

02:07

Ydy.

02:08

Ond, wedyn mae e'n mynd am beint, ma fe'n meddwi, ac weithiau

02:14

dyw e ddim yn gallu mynd i'r gwaith y diwrnod canlynol, so mae e'n gylch diddiwedd.

02:18

Oes 'na rhywle arall bydde fe'n gallu mynd? Rhywun bydde fe'n gallu siarad efo?

02:26

Na sai'n gallu meddwl am neb. Bydde rhaid i ti ofyn iddo fe.

02:30

Iawn, dof i nôl heno os yw hynny'n iawn, i drafod efo Peter?

02:35

Mae'n bwysig ein bod ni'n trafod efo'n gilydd, ac ein bod ni'n cael ei farn o hefyd o beth sydd wedi bod yn digwydd.

02:43

Ydy, yn iawn.

02:45

Felly rydych chi'n teimlo eich bod chi'n mynd rownd mewn cylchoedd.

02:48

Ar adegau pan mae'r ddau ohonoch chi wedi upsetio, ydych chi'n meddwl ei fod o'n deall sut ydych chi'n teimlo?

02:58

O na. Nac ydy.

03:00

Felly, ga' i awgrymu eich bod chi'n cael amser ar wahân,

03:05

ond mewn ystafelloedd gwahanol yn y tŷ?

03:09

A bod chi'n ysgrifennu eich teimladau i lawr, ar y pryd, pan ydych chi wedi cynhyrfu

03:14

eich bod chi'n ysgrifennu sut ydych chi'n teimlo pryd hynny.

03:19

Wedyn, ar ôl i chi taweli fod chi'n dod yn ôl ar eich gilydd a bod chi'n trafod sut oeddech chi'n teimlo ar y pryd.

03:25

Ydych chi'n meddwl bydde fo yn fwy parod i wrando ar eich ochr chi pryd hynny?

03:31

Beth, 'se ni'n ysgrifennu popeth i lawr?

03:34

Ydych chi'n meddwl bydde hwnna'n helpu?

03:37

Falle.

03:39

Wel y gobaith ydy os mae hyn yn gweithio, mi fydda llai o ffraeo.

03:44

A hefyd fod y ffraeo ddim yn para cweit mor hir neu ddim yn digwydd mor aml.

03:47

A hefyd efallai eich bod chi'n dechrau deall eich gilydd yn well. Teimladau eich gilydd.

03:55

Ie, gobeithio.

03:59

Roeddech chi'n dweud fod amser fel teulu yn bwysig i chi. Ydych chi'n gallu dweud mwy am berthynas chi a Llyr?

04:05

Wel fi just ddim yn credu bod Llyr weithiau yn deall bod dim arian gyda ni i fynd mas a chael

04:10

trainers newydd iddo fe, fel sydd gyda'i ffrindie fe ti'n gwybod?

04:15

Un tro oedd e moyn yr esgidiau football 'ma, o nhw'n rhy ddrud.

04:19

Ond oedd e ddim yn gallu deall 'ny ac oedd e'n gofyn pam.

04:22

Felly pan mae o'n cael ei ffordd ei hun, mae e yn stopio'r ffrae ac mae o'n taweli.

04:28

Ydych chi'n gallu meddwl am ffordd arall mae pethau wedi gwella yn y sefyllfa yna?

04:34

Na sdim byd yn helpu. Na.

04:39

Beth os dwi'n dod nôl heno hefyd i siarad gyda Llyr?

04:45

I feddwl sut bydde chi'n gallu gwella eich perthynas chi efo eich gilydd.

04:51

A trafod am pan mae o yn mynd allan i'r stad, mae yn eich poeni chi,

04:54

ac efallai bod yn syniad da i Llyr adael i chi wybod ble mae'n mynd a gyda phwy.

05:00

Ie.

05:02

Os bydde fe yn gadael i chi wybod pryd bydde fe adre,

05:05

neu fod chi'n dweud wrtho fe pryd byddwch chi'n disgwyl e adre, bydde hynny'n rhywbeth?

05:09

Bydde, ond bydde'n well 'da fi 'se fe ddim yn botheran gyda'r gang 'na,

05:14

'na gyd maen nhw'n gwneud yw creu trwbl.

05:17

Mae'n swnio'n anodd iawn, a dwi'n deall eich bod chi eisiau gwneud eich gorau glas i'ch mab.

05:23

Ond ar y llaw arall mae'n anodd i Llyr hefyd,

05:27

cwbl mae o eisiau gwneud ydy bod gyda'i ffrindiau.

05:31

Gewn ni drafod hyn heno gyda Llyr hefyd? Fel bod o yn rhan o greu'r cynllun yma?

05:40

Fel arfer mae cynllun yn fwy effeithiol os mae'r plentyn yn rhan o'r trafod a'r cynllunio.

05:49

O ran Llyr a Pete, bydden i'n rili lico fe 'se Pete yn gwario mwy o amser gyda Llyr.

05:57

Ti'n gwybod? Falle mynd â fe i ymarferion pêl droed neu rywbeth?

06:01

Mwy o sylw ei dad e sydd angen arno fe. Ond mae hynny'n rhywbeth arall fi methu cael Pete i ddeall.

06:07

Felly mae yna adegau wedi bod lle mae'r perthynas rhyngoch chi a Llyr wedi bod yn well?

06:14

Felly o beth dwi'n deall, mae Llyr yn llai tebygol o fynd allan efo'i ffrindiau

06:21

os bydde fo'n mynd i ymarferion pêl droed efo Peter?

06:25

Falle os gallwn ni trafod bod yna amser i Llyr a Peter treulio gyda'i gilydd?

06:31

Rhyw amser arbennig?

06:35

Ie. Ac os neith Pete gadw at hynny, neith e weithio fi'n credu.

06:39

Falle dylwn ni roi hwnna yn y cynllun heno.

06:43

Gallwn ni trafod hyn yn fanylach gyda Llyr a Peter.

06:46

Ie. A falle nawn nhw wrando os ti'n dweud 'ny.

06:52

Y peth arall oeddem ni'n sôn amdano oedd y ffaith fod Megan wedi mynd o'r tŷ heb ofyn.

06:59

Felly os bydde'n digwydd eto, neu fod hi jest angen amser ar ei phen ei hun,

07:06

lle bydde hi'n gallu mynd ar wahân i dŷ John? Oherwydd 'dyn ni yn gwybod bod John yn droseddwr rhyw.

07:12

Tŷ Nain Ceri?

07:15

Eich mam chi ie?

07:17

Ie.

07:18

A sut bydde hi'n mynd yna?

07:20

Wel bydde hi'n gallu cerdded i fan yna, dydyn nhw ddim yn byw yn bell.

07:23

Bydde Mam wedyn yn gallu ffonio i ddweud ei bod hi wedi cyrraedd.

07:26

Syniad da, dwi'n nodi hyn ar y cynllun. Felly bydd Megan yn mynd i dŷ Nain Ceri,

07:30

a bydd Nain Ceri yn ffonio chi pan mae hi wedi cyrraedd.

07:35

Nawn ni drafod a chynllunio gweddill y cynllun pan ddof i nôl.

07:40

Gwnaf i adael copi yma efo chi.

07:44

Mae hyn yn gynllun i ddiogeli, dyw e ddim yn rhywbeth sy'n cael ei orfodi, iawn?

07:49

Iawn.

07:50

Pan dof i nôl heno, wnaf i drafod gyda chi a Peter a Llyr ac wrth gwrs,

07:54

rydyn ni yn mynd i gyd-greu'r cynllun yma.

07:58

Ac rydw i'n gallu dod nôl wythnos nesa ac fe gewn ni drafod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio

08:04

a hyd yn oed os oes gyda chi syniadau eraill sy'n mynd i weithio hefyd.

08:08

Fel cyfarfod teulu?

08:10

Ie.

08:12

Gwnaf i ysgrifennu hwn i fynny i chi nawr.

> 08:14
>
> Byddaf yn dod â chopi efo fi heno. A pan dof i i siarad efo Peter a Llyr, gewn ni fwrw ymlaen.
>
> 08:20
>
> Iawn oce.
>
> 08:23
>
> Diolch yn fawr iawn i chi am gydweithio heddiw.
>
> 08:25
>
> Welai chi heno.

## Beth sy’n rhwystro ymarferwyr rhag gweithio fel hyn?

- system berfformiad sy’n canolbwyntio ar brosesau, tasgau ac allbynnau, yn hytrach nag ar ansawdd yr ymgysylltiad a chanlyniadau gwirioneddol i blant a phobl ifanc
- pwysau oherwydd amserlenni caeth
- galw cynyddol yng nghyd-destun llai o adnoddau
- diwylliant gweld bai mewn gwasanaethau, y system ehangach a’r cyfryngau sy’n gallu cynyddu ymarfer amddiffynnol
- tybiaeth bod trothwy mesuradwy yn bosibl mewn sefyllfa gymhleth
- edrych yn or-syml ar y ffactorau risg
- prosesau llys yn cynyddu ymarfer amddiffynnol a dadleuol.

## Pam ei bod yn bwysig clywed llais y plentyn mewn prosesau amddiffyn plant?

- mae’r fframwaith deddfwriaethol yn glir y dylai plant fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau pan maent yn rhwym wrth brosesau statudol
- os na chaiff y plant eu gweld, ni chaiff eu lleisiau wrandawiad, mae ymarferion anniogel yn fwy tebygol
- mae prosesau effeithiol i gynnwys plant a phobl ifanc yn caniatáu i ymarferwyr gael dealltwriaeth o beth yw eu hanghenion cyn gynted â phosibl
- pan mae gan blant a phobl ifanc ran yn eu cynlluniau maent yn fwy tebygol o gael eu grymuso, a gallant deimlo eu bod yn rhan o'r newidiadau positif sy’n digwydd yn eu teuluoedd
- mae plant a phobl ifanc sy’n cael eu cynnwys yn effeithiol yn adrodd am brofiadau mwy positif o brosesau amddiffyn plant.

## Beth mae plant a phobl ifanc yn ei werthfawrogi mewn gwasanaethau amddiffyn plant

- y cyfle i feithrin perthynas gadarnhaol â’u gweithiwr
- cael gwybodaeth glir, hygyrch ac amserol am brosesau, cyfarfodydd a chynlluniau
- bod yn gallu penderfynu a ydynt am fynychu cyfarfodydd a chael eu helpu i gyfranogi os ydynt; neu cael eu cynnwys mewn penderfyniadau mewn ffyrdd eraill sy’n briodol i'w hoedran.

Gweld trawsgrifiad

00:01

I'r rhai ohonoch sydd â phrofiad

00:03

o weithio ym maes gwaith cymdeithasol gofal plant

00:07

efallai y byddwch chi'n cydnabod hyn,

00:10

felly os ydych chi'n cwrdd â phobl yn gymdeithasol

00:12

ac maen nhw'n gofyn beth rydych chi'n ei wneud am swydd

00:15

ac rydych chi'n dweud eich bod chi'n gweithio ym maes amddiffyn plant,

00:17

maen nhw'n edrych arnoch chi mewn ffordd benodol

00:20

ac maen nhw'n dweud "o mae hynny'n swydd anodd"

00:23

"sut ydych chi'n cysgu yn y nos?

00:25

Rhaid eich bod chi'n cario'r pryderon hynny gartref.

00:28

Rhaid i chi weld rhai pethau erchyll ".

00:30

Os dywedwch wrthynt eich bod yn gweithio ym maes gofal plant, maen nhw'n meddwl eich bod yn gweithio mewn creche.

00:36

Ac maen nhw'n cael delwedd o fath gwahanol, canfyddiad gwahanol

00:40

o'r math o waith rydych yn gwneud.

00:42

Rydyn ni i gyd yn gwybod

00:44

ein bod ni'n gweithio mewn sefyllfaoedd heriol iawn weithiau

00:47

yn enwedig y rhai sy'n hysbys i MARAC, chi'n gwybod

00:51

cam-drin domestig a phethau felly.

00:53

Ac mae yna heriau i weithwyr cymdeithasol.

00:55

Ac am y rheswm hwnnw, oherwydd fy mod i'n byw yn CNPT

00:59

ac aeth fy merch i'r ysgol yn CNPT,

01:01

gwnaethom y pwynt

01:03

pe bai rhywun yn ei holi hi am yr hyn dwi'n gwneud fel swydd,

01:08

bydde hi'n dweud,

01:10

mae fy nhad yn gweithio i'r cyngor.

01:15

Dywedwyd wrthi hefyd pe bawn i'n troi i fyny yn yr ysgol,

01:18

dylai weithredu fel pe na bai'n fy adnabod.

01:22

Gan ei bod yn ferch yn ei harddegau, roedd hi'n eithaf da am wneud hynny.

01:25

Ar un adeg roedd hi wedi

01:28

dod â ffrind newydd adref i'r tŷ.

01:31

Roedd fy mhartner a minnau allan o waith ar y pryd.

01:34

Edrychodd ei ffrind ar lun

01:36

ac yn gweld llun ohonof fy hun,

01:39

ac mae hi'n dweud "Rwy'n ei adnabod e.

01:42

O ble ydw i'n ei adnabod?

01:45

Beth mae'n ei wneud ar gyfer swydd? "

01:47

Dywedodd fy merch, ar giw "mae e'n gweithio i'r cyngor".

01:50

"Ah dyna lle dwi'n nabod o,

01:53

fe yw ein dyn bin".

01:54

*Chwerthin*

01:59

Pe bawn yn cael y dewis o gael fy ystyried fel y dyn bin

02:03

neu'r gweithiwr cymdeithasol amddiffyn plant

02:05

pan fyddaf yn ymweld â theulu am y tro cyntaf,

02:07

byddai'n well gennyf gael fy ystyried yn ddyn y bin.

02:10

A'r rheswm am hynny, yw hyn.

02:14

Y triongl.

02:15

Nid unrhyw driongl, ond triongl drama Karpman.

02:19

Mae hyn wedi bodoli ers tua 50 mlynedd.

02:22

Ac mae'n sôn am ddeinamig

02:25

y byddai'r mwyafrif ohonom yn gyfarwydd a nhw.

02:28

O ran dynameg tîm, weithiau bydd gennych rywun fydd yn mynd i rôl y dioddefwr

02:32

a bydd aelodau eraill o'r tîm wedyn yn mynd i'w hachub.

02:35

Neu weithiau fe allech chi fod mewn sefyllfa lle rydych chi'n

02:38

herio rhywun am ei ymddygiad, ac maen nhw'n mynd i rôl y dioddefwr,

02:42

ac yna'n sydyn rydych chi wedi mynd i'w hachub

02:45

a'u tynnu allan o'r sefyllfa honno.

02:47

Ac rwy'n credu ei fod yn fodel defnyddiol i feddwl amdano

02:50

pan fyddwn ni'n dechrau galw ein hunain yn weithwyr amddiffyn plant,

02:53

ac a yw hynny'n beth da i'w wneud mewn gwirionedd.

02:55

Felly os ydym yn defnyddio'r model hwn,

02:57

rwy'n weithiwr amddiffyn plant, felly rhaid i hynny olygu

03:01

mai fi yw'r amddiffynwr plant

03:03

a'r person rwy'n ceisio amddiffyn yw'r plentyn.

03:07

Felly pwy mae'r plentyn yn dioddef?

03:10

Eisoes rydyn ni wedi creu deinameg yno,

03:13

pan rydyn ni'n cyhuddo'r rhieni ond rydyn ni'n gweithio gyda nhw mewn gwirionedd.

03:18

Yn ôl i'r triongl,

03:20

mae'n debyg pe byddem yn gofyn i'r rhieni,

03:22

byddai ganddynt farn wahanol.

03:25

Byddent yn gweld eu hunain fel rhieni amddiffynnol,

03:28

efallai bod ganddyn nhw eu problemau, efallai bydd ganddyn nhw eu hanawsterau

03:31

mae'n rhaid i ni gydnabod hynny,

03:33

"ond dwi'n caru fy mhlentyn, rydw i eisiau amddiffyn fy mhlentyn"

03:37

felly maen nhw yno i amddiffyn eu plentyn.

03:39

Os ydyn ni'n meddwl yn ôl eto i achos Tina y bore yma,

03:43

gyda'r fam a'r fideo a welsoch chi.

03:47

"Cefais sioc a chywilydd pan gefais fy nghontractio gyntaf"

03:51

"Rydw i'n mynd i golli fy mhlant"

03:54

Felly eisoes rydyn ni'n gweithio gydag ofn.

03:57

Ac rwy'n credu bod Geraint y prifathro wedi rhoi hynny'n eithaf cryno y bore yma.

04:01

Pan rydyn ni'n delio â heriau ac o dan bwysau,

04:05

yn aml iawn rydym yn troi at strategaethau na fydd o gymorth,

04:09

ac efallai y byddwn yn llai na gonest am bethau.

04:12

Os ewch chi at y meddyg ac maen nhw'n gofyn faint rydych chi'n ei yfed,

04:15

neu'n ysmygu neu'n bwyta,

04:17

mae'n debyg y byddech chi'n rhoi ateb gwahanol i beth yw'r gwir.

04:24

Castell-nedd Port Talbot, o'r cyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth,

04:27

prif swyddogion, rheolwyr,

04:29

maen nhw bob amser eisiau i ni wybod beth yw safbwynt y plentyn.

04:32

Felly pe baech chi'n mynd yn ôl i'r triongl

04:35

a meddwl am y plentyn,

04:38

Byddwn yn dadlau, i lawer o'r plant, y byddai'r triongl drama yn golygu

04:42

y byddent yn gweld eu hunain fel y rhai sy'n gorfod amddiffyn eu rhieni.

04:47

Ac yn aml pan rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd mae'n rhaid i ni weithio trwy'r her honno,

04:52

oherwydd maen nhw'n poeni am yr hyn a allai ddigwydd.

04:55

Efallai y byddan nhw eisiau i'r gweithiwr cymdeithasol fod yn gefnogol a helpu i atal rhai pethau sy'n digwydd

05:00

ond nid ydyn nhw am gael eu tynnu oddi ar eu rhieni.

05:02

Nid ydyn nhw am i'w rhieni gynhyrfu a phoeni.

05:05

Efallai eu bod yn caru ac yn cael bond cryf iawn â'u rhieni,

05:08

ond efallai y byddan nhw hefyd eisiau i rai pethau newid.

05:13

Fe wnes i gymhwyso yn union fel roedd Deddf y plant yn dod i mewn,

05:17

un o'r beirniadaethau ar y pryd,

05:20

oedd er ei bod yn bwysig i bethau ddigwydd mewn modd mwy amserol,

05:25

roedd risg wirioneddol y byddem yn cael ein gyrru gan broses.

05:28

Felly roedd yn canolbwyntio mwy ar brosesau

05:31

a mwy am y dystiolaeth, felly rydyn ni'n colli golwg ar bethau.

05:34

Roedd yna astudiaeth hynod ddiddorol ym 1993,

05:38

lle aethon nhw â gweithwyr cymdeithasol o bob rhan o Ewrop

05:41

ac ymwelon nhw â phob un o'r gwahanol wledydd.

05:46

Dywedodd gweithiwr cymdeithasol Lloegr

05:49

"Wnaethon nhw ddim trafod tystiolaeth o gwbl, tybed beth mae hynny'n ei ddweud am eu system".

05:53

"Fe wnaethon ni siarad amdano y rhan fwyaf o'r amser, ac roeddwn i'n meddwl tybed beth mae hynny'n ei ddweud am ein system".

05:58

Meddai gweithiwr cymdeithasol Ffrainc

06:00

"Mae hyn i gyd yn siarad am dystiolaeth a phrawf,

06:03

mae'r plentyn yn dioddef, nid ydyn nhw'n gallu gweld hynny?"

06:07

Aethant ymlaen hefyd i wneud pwynt pwysig arall,

06:11

Un o egwyddorion Deddf y plant yw budd gorau'r plentyn sydd bwysicaf.

06:17

Dywedodd yn Ffrainc, maen nhw'n dweud rhywbeth tebyg

06:20

"Mae budd gorau'r plentyn yn bwysicaf, yng nghyd-destun y teulu".

06:26

Rydych chi wedi bod yn clywed llawer am y dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau heddiw,

06:31

ac fel y clywsom gan Andrew Jarrett yn gynharach, yn eithaf pwysig,

06:34

nid yw'n broses neu offeryn yr ydym yn ei ddefnyddio yn syml.

06:40

Meddwl yn gysyniadol ydyw mewn gwirionedd.

06:44

Mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl am ein systemau gwerth a'n hiaith,

06:48

a sut rydyn ni'n gweithio gyda phobl.

06:52

Os awn yn ôl at driongl y ddrama,

06:55

byddwn yn awgrymu bod y model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

06:58

yn ein galluogi i feddwl amdanom ein hunain fel y gefnogaeth i'r teulu.

07:02

Ac efallai mai'r troseddwyr yw'r materion

07:05

ynglŷn â sut y gall y rhieni reoli eu rhwystredigaethau.

07:08

Gallai hynny fod yn rheoli dicter,

07:10

gallai fod yn gam-drin domestig, gallai fod yn ystod eang o bethau eraill.

07:13

Sut maen nhw'n cael cefnogaeth ynghylch eu camddefnyddio sylweddau?

07:16

Sut maen nhw'n cael cefnogaeth o amgylch eu hiechyd meddwl?

07:23

Yn aml mae gennym faterion mawr yn ein cymdeithas

07:27

yr ydym yn ceisio delio â nhw fesul achos.

07:30

Rydyn ni'n ei weld fwy ac mae'r dystiolaeth yn dod ymlaen trwy'r amser,

07:34

faint o dlodi sy'n fater sy'n dechrau effeithio ar ein teuluoedd.

07:38

Mae 68% o blant yng Nghymru yn debygol o fynd i'r gwely eisiau bwyd

07:42

yn ystod gwyliau'r ysgol oherwydd

07:44

nad ydyn nhw'n gallu cael prydau ysgol am ddim.

07:46

A yw hynny'n beth amddiffyn plant?

07:49

Neu a yw'n beth datblygu cymunedol?

07:52

A yw'n ymwneud â sut yr ydym yn mynd at ein gwaith?

07:55

I mi, mae canolbwyntio ar ganlyniadau yn offeryn da,

07:58

rwy'n credu bod arwyddion diogelwch mewn gwirionedd yn offeryn da iawn,

08:01

ond oni bai bod gennych chi'r meddwl cysyniadol hwnnw am sut rydyn ni'n gweithio,

08:05

rydyn ni wir yn mynd i gael trafferth

08:07

o ran sicrhau newid.

08:09

Tri phwynt yr hoffwn i orffen arnyn nhw,

08:14

mae angen i ni ddysgu bod mwyafrif llethol y rhieni

08:19

eisiau gwneud y gorau i'w plant.

08:22

Ac mae'n rhaid i ni ymddiried yn hynny. Rwy'n credu eich bod wedi clywed hynny dro ar ôl tro heddiw.

08:29

Rydyn ni bob amser yn meddwl am bethau o safbwynt amddiffyn plant difrifol.

08:36

Y Maria Colwells, y Peter Donaldsons ac yn y blaen.

08:43

Ac mae yna'r peth hwn am reol optimistiaeth,

08:46

bron cyn gynted ag y byddwch yn dechrau dadlau bod gan y rhieni hyn gryfderau,

08:51

neu efallai eich bod chi'n cael eich dal yn ormodol yng ngallu'r rhieni a phethau felly.

08:56

I mi, mae hynny'n ymwneud â sinigiaeth broffesiynol

09:00

sydd wedi dod i amddiffyn plant

09:02

dros yr 20 mlynedd diwethaf.

09:05

Ac nid yw hynny'n ein helpu ni mewn gwirionedd.

09:08

Yn olaf, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn meddwl sut

09:11

rydym yn gweithio i adeiladu perthnasoedd deniadol.

09:13

Ac mae hynny'n caniatáu inni basio'r mater hwnnw o gydymffurfio cudd.

Welsh

## Pam cydweithredu â rhieni a gofalwyr mewn gwasanaethau amddiffyn plant?

- mae ymgysylltu’n well â theuluoedd yn ei gwneud yn haws i weithwyr gael darlun llawnach o les y plant
- pan fo gweithwyr proffesiynol yn cydnabod cryfderau rhieni, gall wella’u morâl a’u hawydd i newid

- pan fo’r rhieni’n cyfranogi’n llawn yn y broses o lunio cynlluniau amddiffyn plant mae’n fwy tebygol y gwelwn well canlyniadau
- mae diffyg cefnogaeth a chyswllt effeithiol â rhieni y mae eu plant yn cael eu cymryd oddi arnynt yn gallu cynyddu’r siawns na fyddant yn gallu ymdopi fel rhiant i'r dyfodol, gan arwain at fod rhagor o blant yn cael eu tynnu oddi arnynt – yn enwedig rhieni iau
- rhaid i brofiadau a safbwyntiau teuluoedd gael eu hystyried fel caffaeliad i helpu i wella systemau a phrosesau; gallwn ddysgu oddi wrth ymarfer sy’n digwydd eisoes ynglŷn â’r hyn sy’n gweithio’n dda i ymgysylltu â rhieni a allai fod yn anghyfeillgar i ddechrau.

## Beth mae rhieni a gofalwyr yn ei werthfawrogi mewn gwasanaethau amddiffyn plant

Corff cymharol fychan o dystiolaeth ymchwil sydd ar gael ynglŷn â safbwyntiau a phrofiadau rhieni a gofalwyr o brosesau amddiffyn plant. Pan ofynnir iddynt, fodd bynnag, clywir yr un neges yn gyson sef eu bod eisiau cael eu cynnwys i raddau mwy helaeth pan fo’u plant dan arolygaeth gwasanaethau amddiffyn plant statudol. Yn benodol, dywed rhieni a gofalwyr eu bod yn gwerthfawrogi neu y byddent yn hoffi:

- gwybodaeth glir, heb jargon am y prosesau a’r amser ynghyd â help i ystyried y wybodaeth yn eu hamser eu hunain
- y cyfle i feithrin perthynas â gweithiwr cymdeithasol (un yn ddelfrydol), sy’n dod i adnabod y teulu, yn treulio amser â’u plant ac yn ymddwyn ‘fel ti a fi’
- cymorth ymarferol, nid dim ond monitro
- dull cytbwys lle bo’r gweithwyr a’u hadroddiadau’n cydnabod cryfderau a bwriadau positif rhieni, ond hefyd fod yn onest ac yn benodol ynglŷn â’r pryderon a’r risgiau

- cynadleddau nad ydynt yn cynnwys gormod o bobl na gormod o bethau annisgwyl, ac sydd mor anffurfiol a chynhwysol â phosibl
- gweithwyr sy'n gofyn i rieni am eu syniadau nhw am atebion yn eu teuluoedd eu hunain, ac sydd hefyd yn gofyn am eu hadborth ynglŷn â sut gellid gwella'r system a'r prosesau ehangach
- cynlluniau sy'n datgan yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ac nid dim ond ar allbynnau, ac sy'n cael eu dilyn heb 'symud y nod'
- gweithwyr nad ydynt yn feirniadol, sy'n ddibynadwy ac yn onest
- gweithwyr sydd wir yn gwrando ac sy'n cydnabod pa mor anodd a thrawmatig y gall y prosesau hyn fod i deuluoedd.

Gwrandewch ar riant yn siarad am sut wnaeth cydweithio â hi mewn ffordd oedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau ac ar ei chryfderau ei helpu i wneud newidiadau er ei mwyn ei hun a'i phlant:

> Gweld trawsgrifiad
>
> 00:00
>
> Roeddwn i wedi fy nifetha
>
> 00:02
>
> Rwy mynd i golli fy mhlant
>
> 00:05
>
> Pobl yn dweud wrthaf, ti ddim yn digon da...
>
> 00:08

Nid oes gennych gefnogaeth deuluol y tu ôl i chi ...

00:10

ac maen nhw'n mynd i fynd â'ch plant i ffwrdd

00:12

oherwydd eich bod ar eich pen eich hun

00:16

Felly roeddwn i'n poeni i ddechrau

00:19

Roeddwn yn amharod iawn i wrando

00:22

Oherwydd roedd gen i'r lleisiau tywyll hynny yn fy mhen

00:24

yn dweud byddai'n colli fy mhlant

00:26

Fy nghyn-bartner...dinistriodd bopeth

00:29

Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd, roeddwn i ar incwm isel iawn

00:33

Roedd presenoldeb fy mab tua 63%

00:35

Roedd yn ofnadwy

00:36

Roedd yn hwyr trwy'r amser

00:38

Nid oedd nad oedd yn mwynhau'r ysgol, oherwydd ei fod yn caru'r ysgol

00:41

Roedd yn yr arfer hwnnw

00:42

o bigo a dewis

00:45

Oherwydd

00:46

Roedd diffyg anogaeth i wneud iddo eisiau mynd

00:50

Roedd yna lawer o frwydro gydag ef bryd hynny

00:54

Oherwydd diffyg trefn a disgyblaeth,

00:57

Roedd popeth yn anhrefn yn ei fywyd

01:00

Ar y pryd

01:02

Byddaf yn onest, rwy'n credu roeddwn i'n berson hunanol

01:04

Roedd y cyfan yn fi, fi, fi

01:07

Heb sylweddoli mai'r plant oedd yn bwysig

01:10

Y cyfan roeddwn i eisiau ei wneud oedd dianc

01:13

Roeddwn i eisiau dianc rhag y bywyd roeddwn i ynddo

01:16

Roeddwn i'n gwylio fy mhlant yn dioddef

01:19

Fy mhlant, roeddent yn haeddu gwell

01:23

Roedden nhw'n haeddu mwy na fi

01:26

Roeddwn i'n meddwl na allaf roi'r hyn maen nhw ei eisiau iddyn nhw

01:30

Cariad teulu

01:32

Felly ar y pryd, fi, fi, fi oedd e

01:35

Pan ddaeth Tina draw,

01:37

gofynnodd imi beth ydych chi wir eisiau

01:39

beth yw'r canlyniadau rydych chi eu heisiau i chi'ch hun

01:42

Fe wnaeth i mi sylweddoli mewn gwirionedd,

01:44

Doeddwn i ddim eisiau i'm plant fod yn y sefyllfa yr oeddent ynddi

01:46

Doeddwn i ddim eisiau bod yn y sefyllfa roeddwn i yn

01:48

Roeddwn i'n edrych ar fy mhlant

01:51

ac roeddwn i'n gallu gweld fy mhlentyndod ynddyn nhw

01:53

Roeddent yn ynysig, yn ansicr

01:57

Ni chawsant eu curo,

02:00

Fe'u curwyd yn feddyliol,

02:03

Ni allent siarad allan

02:05

Fi oedd y ferch fach ddychrynllyd ofnus honno

02:09

lle nad oeddwn i'n gallu siarad fel plentyn

02:11

Roedd y sylweddoliad hwnnw ...

02:14

Doeddwn i ddim eisiau i'm plant gael eu dinistrio'n feddyliol

02:17

Mae angen wythnos lawn arnyn nhw yn yr ysgol

02:20

Ond hefyd yr un-i-un hwnnw gyda'u rhieni

02:23

Dyna wnaeth yr ysgol i mi

02:26

Fe wnaethant agor y drws hwnnw

02:29

Am y gwasanaeth un i un hwnnw gyda fy mab, er mwyn i mi allu ei ddeall,

02:33

Gweld trwy lygaid plentyn

02:35

Ei weld trwy ei lygaid ei hun

02:37

Yn y sesiynau un i un

02:40

Fe wnaethant ddysgu i mi sut i siarad â fy mab

02:45

A chael iddo agor lan

02:47

Dylai ysgolion allu gwneud hynny

02:50

Cydnabu Coad Frank fod

02:53

angen i blant weithio gyda chyfoedion a rhieni

02:59

Yn y bôn, yr hyn rwy'n credu yw

03:02

Os yw pawb sydd mewn cyfarfod Cynhadledd

03:07

yn barod i wrando ar ei gilydd

03:10

...a gwrando ar y rhieni

03:13

gallant ddeall y trallod i'r rhieni

03:18

Oherwydd roeddech chi i gyd yn fy neall i

03:21

oherwydd ichi gymryd yr amser i wrando ac edrych

03:26

Gall unrhyw un gyfarth archebion arnoch chi

03:29

Gallwch chi fod yn robot ar hyd eich oes

03:32

Ond nid yw'n llenwi'r tywyllwch hwnnw a'r gwacter hwnnw y tu mewn i chi,

03:36

Hyd nes y bydd rhywun yn gofyn ichi

03:39

Beth ydych chi ei eisiau ar gyfer eich dyfodol,

03:41

ar gyfer dyfodol eich plant

03:44

Rydych chi'n camu o'r cam hwnnw o fod yn robot

03:47

Rydych chi'n dod yn berson

03:50

Fe'ch cydnabyddir fel bod dynol nid robot

03:55

Pan fyddwch chi'n cael eich cydnabod fel person

04:01

Mae pethau'n dod ychydig yn fwy disglair

04:05

Oherwydd dydw i ddim yn gysgod anweledig

04:10

Dydw i ddim yn fat drws

04:13

Rwy'n berson

04:14

Mae gen i lais a barn

04:17

ac mae gan rywun ddiddordeb yn fy marn i

04:22

mae hynny'n bywiogi fy niwrnod

04:24

Mae'n bopeth ...

04:26

Mae'r ffordd maen nhw'n bwyta yn wahanol,

04:29

Ni fyddai fy mab yn bwyta unrhyw ffrwythau na llysiau,

04:34

Mae'n bwyta pob llysieuyn sy'n cael ei roi o'i flaen nawr

04:37

Arferai gael dychrynfeydd nos,

04:39

45 munud yn sgrechian ac yn crio

04:43

Yn ffitio yn ei gwsg

04:46

Gwlychu ei hun,

04:49

Nid yw wedi gwneud hynny dros flwyddyn

04:54

Anghofiais sut brofiad oedd se fy mab mewn ofn llwyr,

04:58

mae meddwl amdano yn fy nychryn yn awr

05:06

Ond nid yw'n gwneud hynny bellach

05:10

Mae e'n gwrtais,

05:13

Mae'n garedig ac yn ofalgar i'w chwaer

05:15

Fy merch,

05:17

mae hi'n hynod iawn, mae ganddi gymeriad, mae ganddi garisma,

05:24

Mae'r ddau ohonyn nhw'n awyddus i ddysgu

05:26

nid oes ofn arnyn nhw,

05:29

maen nhw'n blant hyderus iawn nawr

05:32

Ni allwn fod wedi gwneud hynny ar fy mhen fy hun.

Gwrandewch ar Keri yn siarad am fel y gwnaeth hi annog y gwasanaethau plant i newid agwedd drwy gydweithredu â theuluoedd a staff rheng flaen

Gweld trawsgrifiad

00:00

Un o'n heriau mwyaf

00:03

oedd sut y gwnaethom ddatblygu cydberthnasau gwaith agosach

00:06

gydag asiantaethau partner. Roeddem wedi bod

00:09

yn eithaf gwrth-risg, roedd gennym

00:12

ni un o'r poblogaethau plant sy'n derbyn gofal uchaf yn y wlad,

00:17

roedd gennym un o'r cofrestriadau amddiffyn plant uchaf yn y wlad,

00:20

ac roedd gennym un o'r poblogaethau plant mewn angen uchaf yn y wlad.

00:25

Roedd partneriaid wedi colli hyder ynom ni,

00:28

ac o ganlyniad roedd y gweithlu o dan ormod o bwysau a gorboethi.

00:34

Roedd staff wedi dechrau gadael yr awdurdod

00:38

a phan ddaethom i mewn, roedd gennym 42 o staff asiantaeth

00:41

yn gweithio i ni,

00:43

roedd y trosiant yn enfawr.

00:46

Roedd fel pe baem yn gorfod troelli platiau i gyd ar yr un pryd.

00:49

Er ein bod yn ceisio creu gweithlu hapus, iach a gwydn,

00:53

ac adeiladu profiad,

00:56

